

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2021 Rhif 1306 (Cy. 335)**

**ARDRETHU A PHRSIO,  
CYMRU**

Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu  
(Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu)  
2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 ("Rheoliadau 2021"). Mae Rheoliadau 2021 yn pennu'r rhagdybiaethau sydd i'w gwneud wrth gymhwyso darpariaethau is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Bydd Deddf Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) 2021 yn darparu ar gyfer pwnc Rheoliadau 2021 yn eu lle.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2021 Rhif 1306 (Cy. 335)**

**ARDRETHU A PHRSIO,  
CYMRU**

**Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu  
(Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu)  
2021**

*Gwnaed* 23 *Tachwedd 2021*

*Gosodwyd* *gerbron* *Senedd*  
*Cymru* 25 *Tachwedd 2021*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(1)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu) 2021 a deuant i rym ar y diwrnod y caiff Deddf Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) 2021(3) ei phasio.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

- 
- (1) 1988 p. 41. Diwygiwyd paragraff 2(8) gan adran 139 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42) a pharagraff 38(8) o Atodlen 5 iddi. Gweler adran 146(6) am y diffiniad o "prescribed".
- (2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
- (3) 2021 p. 00.

**Dirymu**

2. Mae Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu (Cymru)  
(Coronafeirws) 2021(1) wedi eu dirymu.

*Rebecca Evans*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o  
Weinidogion Cymru  
23 Tachwedd 2021

---

(1) O.S. 2021/1204 (Cy. 301).